Rôl yr asesydd lleyg mewn cydadolygiadau

Pwy yw'r aseswyr lleyg?

Cafodd yr aseswyr lleyg eu recriwtio, yn annibynnol ar AGCC a'r Swyddfa Archwilio Cymru, er mwyn helpu gyda'r gwaith o adolygu gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol yng Nghymru. Maent yn rhan o'r tîm adolygu ond nid ydynt yn arolygwyr proffesiynol nac ychwaith yn weithwyr cymdeithasol neu yn rheolwyr gofal cymdeithasol. Dangos consýrn yw eu prif swyddogaeth, a chynrychioli'r cyhoedd. Mae eu gallu i lunio barn ystyrlon am wasanaethau cymdeithasol yn deillio o'r ystod eang o brofiadau bywyd a gwaith sydd ganddynt.

Caiff aseswyr lleyg eu recriwtio gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), sy'n gweinyddu'r cynllun, yn rhoi cefnogaeth i aseswyr lleyg ac yn neilltuo adolygiadau penodol ar eu cyfer. Fel arfer, cânt eu cyflogi am gyfnod o dair blynedd, yn dilyn cyfweliadau ac ymholiadau â'r swyddfa cofnodion troseddol. Nid oes hawl gan rai grwpiau (ee cynghorwyr) i fod yn aseswyr lleyg. Nid ydynt yn cael eu cyflogi gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru na Llywodraeth Cynulliad Cymru ond maent yn derbyn lwfans dyddiol penodedig ar gyfer y gwaith y maent yn ei wneud yn ystod yr adolygiadau. Mae'r broses recriwtio a luniwyd yn un systematig ac fe'i seiliwyd ar ganllawiau clir sy'n amlinellu'r rhinweddau personol, y wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol. Bydd aseswyr lleyg yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu a chyngor cyson gan CGGC. Mae AGCC a CGGC wedi cytuno ar brotocol mewn perthynas â sut y bydd yr aseswyr lleyg yn mynd ati i gyfrannu at adroddiadau adolygiadau a sut i fynd ati i ddelio ag unrhyw anghytundebau.

Nid yw'r aseswyr lleyg wedi gweithio yn yr awdurdodau sy'n cael eu harolygu ac nid oes ganddynt unrhyw brofiad o'r gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdodau hynny (naill ai'n bersonol neu drwy ffrindiau/teulu). Nid oes ganddynt unrhyw ran yn y gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir yn yr ardal nac ychwaith unrhyw fudd ariannol.

Beth yw eu rôl?

Mae aseswyr lleyg yn rhoi safbwynt gwahanol iawn i waith y timau adolygu drwy gynrychioli safbwyntiau'r rhai hynny sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'r cyhoedd. Maent yn rhoi annibyniaeth ychwanegol i waith adolygu AGCC a'r Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn ffordd o sicrhau chwarae teg yn y gweithgareddau hyn ac atebolrwydd cyhoeddus. Maent yn ategu'r gwaith a wnaed eisoes gan arolygwyr proffesiynol, yn rhannol drwy ganolbwyntio ar brofiadau a buddiannau defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr yn ystod eu trafodaethau â'r gwasanaeth cymdeithasol a sefydliadau sy'n bartneriaid. Maent yn cydweithio â gweddill y tîm drwy'r rhan fwyaf o'r broses adolygu ac yn darparu asesiad ysgrifenedig eu hunain ar ddiwedd pob cyfnod o waith maes. Maent yn cyfrannu at adroddiad yr adolygiad.

Beth y maent yn ei wneud yn ystod yr adolygiadau?

Yn ystod yr adolygiad, mae aseswyr lleyg yn mynd i'r afael ag ystod eang o weithgareddau er mwyn iddynt fedru:

- casglu digon o dystiolaeth i greu adroddiad am brofiadau a safbwyntiau defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr.
- cadw llygad i weld sut y mae'r tîm adolygu yn gweithredu er mwyn dod i gasgliad teg ac annibynnol o'r ffordd y cynhaliwyd yr adolygiad.
- cyfrannu'n gywir at y ffordd y cynlluniwyd yr adolygiad a'r broses o ffurfio barn ar berfformiad y gwasanaethau cymdeithasol.

Byddant yn:

- darllen y rhannau perthnasol o'r wybodaeth a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol

- talu sylw i'r dystiolaeth a gasglwyd o'r arferion ymgynghori gyda defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr a'r arolygon a ddefnyddiwyd fel rhan o'r adolygiad.
- siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau
- ymweld â'r lleoliadau lle ddarperir y gwasanaethau (gan gynnwys canolfannau cyswllt, adnoddau dydd a lleoliadau preswyl)
- siarad â staff yr awdurdod lleol a darparwyr gwasanaethau eraill
- cyfrannu at gyfweliadau gyda'r rhanddeiliaid perthnasol
- cwrdd â defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr yn eu cartrefi (dim ond ar adegau pan fydd aelod arall o staff yn bresennol)
- rhoi gwybodaeth yn ddi-oed i gydweithwyr ynghylch unrhyw faterion sy'n peri pryder
- cadw nodiadau mewn perthynas â'u gwaith ac yn eu rhannu gyda'r adolygydd arweiniol
- cymryd rhan ym mhob un o gyfarfodydd ffurfiol y tîm adolygu
- darparu asesiad ysgrifenedig ar ddiwedd y cyfnod gwaith maes, gan ddatgan eu barn annibynnol
- monitro ac adrodd ar ba mor deg a diduedd oedd y tîm adolygu
- cyfrannu at yr adroddiad adolygu gan sicrhau ei fod yn ddealladwy yn enwedig i bobl leyg eraill sydd â diddordeb ym maes gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd gan aseswyr lleyg rôl weithredol mewn cyfarfodydd gyda defnyddwyr y gwasanaeth a gofalwyr ond nid oes disgwyl iddynt reoli'r cyfarfodydd hyn heb gymorth oddi wrth aelodau eraill y tîm adolygu. Maent yn ymdrin â detholiad o'r gwaith maes. Disgwylir iddynt fod yn gysylltiedig ag o leiaf hanner y rhaglen, ond nid mwy na dwy ran o dair; trafodir hyn gyda'r adolygydd arweiniol. Mae'n bosibl y gellir gwneud rhan o'u gwaith yn annibynnol ar y tîm adolygu, sef yr ymweliadau â lleoliadau gwasanaethau a grwpiau eiriolaeth yn bennaf.

Sut y dylent ymddwyn?

Yn ystod yr adolygiadau, disgwylir i aseswyr lleyg:

- fod yn drefnus
- parchu natur gyfrinachol y wybodaeth a roddir iddynt
- parchu preifatrwydd y bobl maent yn cwrdd â hwy
- ymddwyn mewn ffordd sy'n sensitif i anghenion ac amgylchiadau amrywiol defnyddwyr unigol y gwasanaeth a gofalwyr
- trin pobl â chwrteisi a pharch a gwrando ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud
- gofyn cwestiynau addas a gwrando'n astud ar yr atebion
- gweithredu mewn ffordd sy'n ennyn hyder yn eu hunplygrwydd, eu hannibyniaeth a'u meddwl agored
- peidio â chynnig cyngor i ddefnyddwyr gwasanaeth neu staff heb gytuno ar hynny gyda'r adolygydd arweiniol.
- osgoi rhag defnyddio'r adolygiad fel ffordd o fwrw ymlaen ag ymgyrchoedd gwahanol
- ffurfio barn yn rhesymol a theg yn seiliedig ar yr hyn y maent wedi ei weld a chlywed
- cyfrannu'n gyfartal at waith y tîm adolygu
- dilyn cyfarwyddyd y prif adolygydd mewn perthynas â sut y cynhelir yr adolygiad a'r pethau y bydd yn canolbwyntio arnynt
- delio'n gyfrifol ag unrhyw wrthdaro barn o fewn y tîm adolygu.

Rhinweddau aseswyr lleyg

Mae angen i aseswyr lleyg fod yn bobl graff sy'n sensitif i anghenion y rhai y darperir y gwasanaethau ar eu cyfer. Dylent feddu ar sgiliau arsylwi a chyfathrebu, y gallu i wahaniaethu rhwng ffeithiau a barn bersonol, y gallu i ffurfio barn ynghylch ansawdd gwasanaethau a'r parodrwydd a'r gallu i weithio mewn tîm. Rhaid i aseswyr lleyg fod yn ymwybodol o faterion cyfle cyfartal. Nid oes disgwyl iddynt feddu ar wybodaeth fanwl am y ddeddfwriaeth, rheoliadau neu'r arweiniad swyddogol sy'n sail i'r gwasanaethau a ddarperir. Nid oes angen iddynt ddeall y cyd-destun ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a'r gofal cymdeithasol a ddarperir. Mae rhaglen gynefino ar

gael ar eu cyfer a byddant yn derbyn yr holl wybodaeth angenrheidiol cyn cychwyn yr adolygiad.